# LC1123

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Gorchymyn Ffliw Adar a Chlefyd Newcastle (Cynllunio Wrth Gefn) (Cymru) 2005

Diben y Gorchymyn yma yw ymestyn cymhwysiad adran 14A o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 ("Deddf 1981") (a fewnosodwyd gan adran 18 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002) i gynnwys clefydau ychwanegol, sef ffliw adar a chlefyd Newcastle. Mae Adran 14A yn darparu ar gyfer paratoi cynlluniau cenedlaethol wrth gefn mewn perthynas â chlwy'r traed a'r genau ac unrhyw glefydau eraill a bennir drwy gyfrwng Gorchymyn.

## Rheol Sefydlog 11.7

Mae un pwynt wedi'i nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae testun Saesneg y rhaglith yn cyfeirio at adran 14A(1)(b) ac (8)(c) o Ddeddf 1981 fel y pwerau sy'n caniatáu i'r Gorchymyn gael ei wneud. At y cyntaf o'r rhain yn unig y cyfeirir yn y testun Cymraeg. Gellir dadlau p'un a oes angen cyfeirio at (8)(c) neu beidio, gan mai'r cyfan a geir ynddi yw diffiniad o'r Cynulliad Cenedlaethol fel yr awdurdod priodol mewn perthynas â Chymru. Serch hynny, mae'n rhaid i'r ddau destun gyfeirio at yr un pwerau. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Mân wall drafftio neu wall teipograffyddol yw hwn ac fe fyddai'n briodol ei gywiro drwy gyfrwng

Memorandwm Cywiriadau.

## Glyn Davies AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 12th Gorffennaf 2005